**Eitem ar yr agenda: 3**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun, Medi 24ain 2007 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2.15 y prynhawn.

**Yn bresennol:**

| **Y Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A MacLennan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); J Kennedy (Dirprwy Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod);
P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Halstead (Pennaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy); W A Murphy (Uwch Rheolwr Gweithrediadau); G Brandrick (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); R Fairhead (Rheolwr Cefnogi Tîm Ymgynghorol y Prif Swyddog) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| **Y Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| I R Miller | Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod |

C Enness Dirprwy Brif Swyddog Tân

**2) Rhybudd o Faterion Brys**

Dywedodd y Cadeirydd na chyflwynwyd unrhyw eitemau iddo ef na'r Dirprwy Swyddog Monitro i'w hystyried.

Gofynnodd yr aelodau i'r swyddogion drosglwyddo eu dymuniadau gorau i'r Dirprwy Brif Swyddog Tân Chris Enness oedd adref yn gwella ar ôl llawdriniaeth.

Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Panel ei fod wedi derbyn llythyr gan UNISON yn ddiweddar yn rhoi rhybudd fod yr Undeb mewn stâd o anghydfod diwydiannol gyda'r Awdurdod dros ddyfarniad cyflog 2007 ar gyfer staff llywodraeth leol. Cynghorodd aelodau y gallai hyn arwain at aelodau o UNISON yn gweithredu'n ddiwydiannol, ond rhoddodd sicrwydd i'r Panel byddai mesurau yn cael eu rhoi yn eu lle i sicrhau'r ddarpariaeth gwasanaethau rheng flaen.

Cynghorwyd aelodau hefyd fod Seminar Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub Cymru Gyfan, oedd i'w chynnal ar 5ed Tachwedd 2007 ym Merthyr Tydfil wedi cael ei chanslo. Gan fod y dyddiad wedi cael ei neilltuo ar gyfer busnes oedd yn gysylltiedig â'r Awdurdod, awgrymodd y Prif Swyddog Tân y gallai'r aelodau ddefnyddio'r cyfle i gynnal digwyddiad yng Ngogledd Cymru.

***<u>Penderfynwyd:</u> - cynnal cyfarfod anffurfiol o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 5ed Tachwedd 2007 i drafod cyllideb y Gwasanaeth.***

**3) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar Orffennaf 25ain 2007.

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.***

**4) Materion yn codi**

Roedd y mater canlynol yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd:

**Tudalen 7, Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol – Gosod Taenellwyr Domestig:** mewn ymateb i gais gan yr Is-Gadeirydd am y diweddaraf ynglŷn â'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, fe gynghorodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau fod y Diwrnod i'r Wasg, drefnwyd gan Mrs Ann Jones AC, yng Ngorsaf Dân Llanelwy ar 13eg Medi 2007, i hyrwyddo'r Gorchymyn ac amlygu'r buddion o osod taenellwyr domestig wedi cael derbyniad da a chefnogaeth eang. Roedd y broses wedi dioddef ychydig o rwystr yn ddiweddar yn dilyn ymadawiad ymchwilydd Mrs Jones, gan ei fod wedi cymryd rhan flaenllaw yn y

gwaith yn ymwneud â'r Gorchymyn. Roedd y wybodaeth ddiweddaraf dderbyniwyd gan y Cynulliad yn dynodi byddai'r Gorchymyn yn cael ei drafod yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar 10fed Hydref 2007.

**5) Cynllun Lleihau Risg 2008/09 – ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus**

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad ac atodiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn hysbysu aelodau o'r ymatebion dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Cynllun Lleihau Risg drafft yr Awdurdod ar gyfer 2008/09. Roedd yr adroddiad yn rhestru'r categorïau o sefydliadau ac unigolion ymgynghorwyd â hwy yn ogystal â'r dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer y broses ymgynghori. Cynghorwyd aelodau fod yr ymarferiad ymgynghori yma wedi atynnu'r nifer uchaf o ymatebion o unrhyw ymgynghoriad ar Gynlluniau Lleihau Risg a ymgymerwyd gan y Awdurdod. O'r 62 o ymatebion dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau, roedd oddeutu dwy ran o dair wedi cael eu cyflwyno gan bersonél y Gwasanaeth.

Yna, rhoddodd Reolwr Cynllunio Corfforaethol y Gwasanaeth grynodeb o gynnwys yr adroddiad oedd yn manylu'r dulliau y cyflwynwyd yr ymatebion, a'r materion a'r pryderon a godwyd. Yn dilyn ei chyflwyniad, aeth ymlaen i fanylu cynnwys atodiad yr adroddiad oedd yn rhestru ac yn categoreiddio'r ymatebion dderbyniwyd. Roedd yr ymatebion yn disgyn i chwe chategori; sylwadau cyffredinol am y ddogfen Cynllun Gweithredu drafft; sylwadau yn cefnogi'r cynigion; sylwadau yn anghytuno'n sylfaenol gyda'r cynigion; sylwadau nad oeddynt yn cefnogi'r cynigion; sylwadau yn awgrymu dewisiadau eraill a chwestiynau. Roedd modd rhannu'r rhai yn y categori cwestiynau i ddau grŵp: cwestiynau rhethregol a chwestiynau dilys oedd yn edrych am wybodaeth.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i bawb oedd yn bresennol fod Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg wedi cyfarfod yn gynharach y bore hwnnw ac wedi trafod yn fanwl yr ymatebion dderbyniwyd. Yn dilyn dadansoddiad gynhwysfawr o'r ymatebion dderbyniwyd a thrafodaethau manwl, roedd y Gweithgor wedi ffurfio argymhelliad i'r Panel Gweithredol ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 15fed Hydref 2007 mewn perthynas â Cynllun Gweithredu Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdod ar gyfer 2008/09. Cytunodd y Panel gyda'r argymhelliad arfaethedig:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i.*** ***nodi'r ymatebion dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu drafft 2008/09 y Cynllun Lleihau Risg, ac yng ngoleuni'r nifer o ymatebion dderbyniwyd;***
- ***ii.*** ***argymell fod yr Awdurdod Tân ac Achub, yn ei gyfarfod ar 15fed Hydref 2007, yn derbyn Cynigion 1, 2 a 4 fel y'i drafftiwyd o fewn y Cynllun Gweithredu Drafft 2008/09;***
- ***iii.*** ***mewn perthynas â Chynnig 3, yr Adolygiad Rhestru a'r Opsiwn Ymateb Ymroddedig, gohirio penderfyniad ar y cynnig hwn ac i***

***Weithgor y Cynllun Lleihau Risg ei drafod a'i ddadansoddi ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol, gydag unrhyw gynnig yn y dyfodol, yn dilyn ei argymell gan y Panel Gweithredol, i fod yn ddibynnol ar gadarnhad gan yr Awdurdod llawn; a***

***iv. cytuno ar eiriad terfynol ei ymateb i'r sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ar Gynllun Gweithredu Y Cynllun Lleihau Risg 2008/09 drafft fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 1 yn amodol ar ddileu yr ymatebion hynny oedd yn gysylltiedig â Chynnig 3.***

**6) Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol – Adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu**

Croesawyd Mr Matthew Edwards, Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno tri adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Y cyntaf oedd 'Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol – Adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu' (ddosbarthwyd o flaen llaw). Eglurodd Mr Edwards, fod yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2006/07 bron â'i gwblhau a felly, roedd angen i Swyddfa Archwilio Cymru, fel archwilydd allanol penodedig yr Awdurdod, yn unol â'r Safon Rhyngwladol o Archwilio (ISA) 260, adrodd i'r rhai oedd yn gyfrifol am lywodraethu'r Awdurdod am y manylion a'r negeseuon allweddol oedd yn codi o'r archwiliad, cyn rhoi barn derfynol ar y datganiadau ariannol. Cynghorwyd aelodau'r Panel nad oedd gan Mr Anthony Barratt, yr Archwilydd Penodedig, unrhyw bryderon am agweddau ansoddol o arferion cyfrifo ac adrodd ariannol yr Awdurdod, ac ei fod yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilydd diamwys ar y Datganiadau Ariannol.

Manylodd Mr Edwards gynnwys yr adroddiad ac eglurodd i aelodau fod gofyn iddo dynnu eu sylw at nifer o gamddatganiadau yn y Cyfrifon. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y camddatganiadau nad ydynt yn fan wallau yn gysylltiedig â dal darpariaethau, oedd, er eu tynnu i sylw'r rheolwyr, heb eu cywiro yn y Datganiadau Ariannol. Fe ddywedodd Swyddfa Archwilio Cymru, tra bod y darpariaethau yma wedi eu gosod naill ochr er mwyn cwrdd â gwariant cyllidol yn y dyfodol yn hytrach nag ymrwymiadau presennol oedd yn ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol (yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol (FRS) 12), nid oeddynt yn cydymffurfio gyda Datganiad o'r Arfer a Argymhellir gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a chydag ymarferion cyfrifo cyhoeddus cydnabyddedig, er hynny roeddynt yn bwyllog ac yn dryloyw. Fe gadarnhaodd Swyddfa Archwilio Cymru eu bod yn ymwybodol fod yr Awdurdod wedi defnyddio'r ymagwedd yma ers ei sefydlu yn 1996 a bod yr awdurdodau cyfansoddol wedi derbyn briff llawn o'r trefniadau ac yn fodlon gyda'r ymagwedd gymerwyd gan yr Awdurdod. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn fodlon hefyd fod y symiau osodwyd fel 'Darpariaethau' yn cael eu defnyddio o fewn cyfnod rhesymol yn gyffredinol, ond gwnaed cais fod aelodau yn cefnogi'r ymagwedd gymerwyd gan y rheolwyr cyn i'r Datganiad o Gyfrifon gael ei arwyddo gan yr Archwilydd Penodedig. O'r flwyddyn ariannol 2006/07 ymlaen roedd yn angenrheidiol arwyddo'r holl gyfrifon terfynol erbyn 30ain Medi yn y flwyddyn ariannol ganlynol.

***<u>Penderfynwyd:</u> - nodi adroddiad yr Archwilydd Penodedig ac i gymeradwyo'r ymagwedd gymerwyd gan y rheolwyr mewn perthynas â dal darpariaethau nad oedd yn cydymffurfio'n llawn gyda FRS 12.***

**7) Archwiliad o Gyfrifon Ariannol – 2006/07 Memorandwm Cyfrifon Terfynol**

Aeth Mr Edwards yn ei flaen i gyflwyno ei adroddiad ar yr 'Archwiliad o Gyfrifon Ariannol - 2006/07 Memorandwm Cyfrifon Terfynol' (ddosbarthwyd o flaen llaw). Fe eglurodd, o dan God Ymarfer Archwilio ac Arolygu Swyddfa Archwilio Cymru, roedd gan yr Archwilydd Penodedig gyfrifoldeb i ddarparu barn os oedd Datganiadau Ariannol yr Awdurdod yn cyfleu ei safle ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol yn deg. Hysbysodd Mr Edwards yr aelodau mai amcan allweddol yr archwiliad oedd i gasglu tystiolaeth i gefnogi barn oedd yn nodi fod "y datganiadau cyfrifyddu yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31ain Mawrth 2007 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol". Aeth yn ei flaen i fanylu cynnwys ei adroddiad oedd yn crynhoi yr ymagwedd gymerwyd a'r argymhellion oedd wedi codi o'r archwiliad. Roedd y chwe argymhelliad oedd wedi deillio o'r archwiliad wedi eu rhestru yn y Cynllun Gweithredu oedd ynghlwm i'r adroddiad hwn. Roedd y Rheolwyr wedi cytuno i dderbyn 4 o'r 6 argymhelliad. Roedd y 2 argymhelliad nas derbyniwyd yn gysylltiedig â chyflwyno gweithdrefnau rheoli stoc ym mhob gorsaf unigol, ac awgrymiad y dylai Polisi Rheoli Trysorlys yr Awdurdod gael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r gofyniad y dylai'r holl fuddsoddiadau fod yn enw'r Awdurdod. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Is-Gadeirydd ar beidio â derbyn yr argymhellion yma, fe gynghorodd y Trysorydd mai lefelau isel o stoc a gedwid mewn gorsafoedd unigol, felly, byddai'r gost o weithredu gweithdrefn reoli stoc fel yn yr argymhelliad yn llawer uwch na'r buddion a ddeilliai o'i weithrediad. Mewn perthynas â'r argymhelliad yn ymwneud â diweddaru Polisi Rheoli y Trysorlys, fe gynghorodd y Trysorydd fod yr ymagwedd a gymerwyd ar hyn o bryd, lle'r oedd buddsoddiadau'r Awdurdod yn cael eu cronni gyda rhai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn golygu fod yr Awdurdod yn cynhyrchu lefel uwch o incwm. Roedd buddsoddiadau'r Awdurdod yn cael eu dangos yn glir o fewn Adran Trysorlys y Cyngor ac felly, nid oedd safle ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub mewn perygl. Roedd swyddogion o'r farn pe byddai'r Awdurdod yn derbyn ac yn gweithredu'r argymhelliad olaf, byddai o dan anfantais, oherwydd byddai'n gwadu incwm uwch ar ei fuddsoddiadau, ac o ganlyiad yn lleihau ei gynhwysedd i gynhyrchu incwm.

Fe gynghorodd Mr Edwards y Panel fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad fod gan yr Awdurdod lefel uchel effeithiol o reolau mewnol mewn lle oedd yn darparu sail gadarn ar gyfer paratoi datganiadau ariannol. Cyflwynwyd y cyfrifon archwiliedig erbyn y dyddiad cau penodedig ac roedd y cyfrifon drafft wedi cael eu cyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru ar amser ac yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

Atgoffwyd aelodau o'u cyfrifoldebau personol hwy mwyn cynorthwyo gyda chwblhad y datganiadau ariannol drafft, i gwblhau a dychwelyd y datganiadau partïon cysylltiedig ar amser.

Cyn gorffen, gofynnodd Mr Edwards fod ei werthfawrogiad i bersonél Cyllid y Gwasanaeth, Adran y Trysorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a staff yr Adran Archwilio, ac yn arbennig Ms Sandra Forrest, y Prif Gyfrifydd a Ms Claire Davies, y Rheolwr Cyllid, yn cael ei nodi.

***<u>Penderfynwyd:</u> - nodi'r adroddiad a'r Memorandwm Cyfrifon Ariannol 2006/07.***

**8) Asesiad o Archwiliad Mewnol 2006/07**

Cyflwynwyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Asesiad o'r Archwiliad Mewnol 2006/07' i'r Panel gan Mr Edwards. Fe eglurodd fod angen i'r archwilwyr allanol asesu swyddogaethau Archwilio Mewnol yr Awdurdod yn erbyn y deg safon osodwyd yng 'Nghod Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig' CIPFA yn flynyddol. Manylodd Mr Edwards gynnwys ei adroddiad a hysbysu'r Panel, yn dilyn ei asesiad, fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad fod y swyddogaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio'n llawn gyda 7 o'r 10 safon, ac, er nad oedd strategaeth archwilio mewnol wedi cael ei chyhoeddi ar gyfer 2006/07, roedd un yn ei lle ar gyfer 2007/08. Gwnaed cynnydd arwyddocaol wrth weithredu'r argymhellion o asesiad y flwyddyn flaenorol, ac, yn ystod y flwyddyn, roedd cylch gwaith y Panel Gweithredol wedi cael ei ymestyn i gwmpasu rôl pwyllgor archwilio.

Gwnaed dau argymhelliad yn dilyn yr asesiad. Roedd yr argymhellion hyn a restrwyd yn y Cynllun Gweithredu yn Atodiad 1 yr adroddiad, wedi eu derbyn.

***<u>Penderfynwyd:</u> - nodi'r Asesiad o Archwiliad Mewnol 2006/07.***

Yn dilyn ei gyflwyniadau o adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru, fe ddiolchodd y Cadeirydd, ar ran yr Awdurdod, i Mr Edwards am fynychu ac am gyflwyno'r adroddiadau. Gan mai dyma'r cyfarfod olaf byddai swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru yn ei fynychu yn eu swyddi fel archwilwyr allanol yr Awdurdod, gofynnodd y Cadeirydd i Mr Edwards drosglwyddo gwerthfawrogiad yr Awdurdod i'w gydweithwyr am eu holl waith dros y blynyddoedd ac am eu hawddgarwch wrth weithio gyda swyddogion ac aelodau.

**9) Datganiad o Gyfrifon 2006/07 a'r Llythyr o Gynrychiolaeth**

Fe gyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad, y fersiwn archwiliedig o Ddatganiad o Gyfrifon 2006/07 yr Awdurdod a chopi o'r ohebiaeth rhyngddo ef a'r Archwilydd Allanol (ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r aelodau. Fe eglurodd fod y Datganiad drafft o Gyfrifon 2006/07 wedi cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Ers hynny, roedd y Cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac, yn dilyn trafodaethau rhwng staff

o Swyddfa Archwilio Cymru ac Adran y Trysorlys, gwnaed man newidiadau cyflwyniaadol i'r Datganiad. Cynghorwyd aelodau gan y Trysorydd fod paragraff 9 o'i ohebiaeth gyda'r Archwilydd Allanol yn gosod rhesymau'r Awdurdod am ddal y 'Darpariaethau' a'r dull y'i cofnodwyd yn y Cyfrifon. O dan y pwerau ddirprwywyd iddo mewn cysylltiad â materion archwilio, roedd y Cyfrifon archwiliedig yn cael eu cyflwyno i'r Panel er gwybodaeth ac iddo gydnabod, ar ran yr Awdurdod, y Llythyr o Gynrychiolaeth at yr Archwilydd Allanol.

***<u>Penderfynwyd:</u> -***

i. ***nodi'r Datganiad o Gyfrifon diwygiedig ar gyfer 2006-07, oedd yn atodedig fel Atodiad 1; a***
ii. ***chydnabod y Llythyr o Gynrychiolaeth anfonwyd at yr Archwilydd Allanol.***

**10) Rhagolygon y Gyllideb ar gyfer 2008/09**

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn cyflwyno rhagor o wybodaeth i aelodau ar y pwysau ar gyllideb refeniw yr Awdurdod. Fe eglurodd fod yr adroddiad hefyd yn gwneud sylw ar setliadau posibl ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw yn y dyfodol. Manylodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ar gynnwys yr adroddiad ac am feysydd penodol o fewn cyllideb y Gwasanaeth lle gellid cyflawni arbedion effeithiolrwydd tymor byr a hir. Cynghorwyd aelodau y gallai'r Awdurdod, trwy sylweddoli effeithiolrwydd penodol a rheoli peth o'r pwysau cost, gyda chynydd mewn cyllideb o £1.27 miliwn (4.29%) ar gyllideb 2006/07, gyflawni ei ddyhead o'r lefel cyflwyniad optimwm ar gyfer diogelwch cymunedol. Cytunodd aelodau, gyda dangosyddion cynnar yn pwyntio tuag at gynnydd o 2 i 2.5% yn setliad Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol a, gydag etholiadau lleol yn cael eu cynnal yn 2008, na fyddai yr awdurdodau cyfansoddol yn debygol o groesawu cynnydd o 4.29% yn eu cyfraniadau tuag at y Gronfa Gwasanaeth Tân Gyfunedig.

Roedd yr Is-Gadeirydd yn teimlo fod angen i aelodau sicrhau fod yr Awdurdod yn derbyn adnoddau digonol i gwrdd â'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau. Roedd hefyd yn bwysig, yn enwedig o gofio'r sefyllfa ariannol oedd yn tynhau yn barhaus, fod y Gwasanaeth yn gweithio gydag adrannau awdurdodau lleol a sefydliadau eraill, i warantu canlyniadau a chyflawniadau ar y cyd.

***<u>Penderfynwyd:</u> - nodi cynnwys yr adroddiad ac i ymgymryd â thrafodaeth fanwl ar Gyllideb y Gwasanaeth yng nghyfarfod anffurfiol yr Awdurdod Tân ac Achub oedd i'w gynnal ar y 5ed Tachwedd 2007.***

**11) Polisi Drafft ar Reoli Parhad Busnes**

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad a'r polisi Rheoli Parhad Busnes drafft i aelodau er gwybodaeth ac i

geisio eu cefnogaeth i'r polisi. Manylodd ar y wybodaeth oedd wedi ei gynnwys yn ei adroddiad ac eglurodd fod Rheoli/Cynllunio Parhad Busnes, sy'n gosod y gweithdrefnau i ymdrin â sefyllfaoedd sy'n amharu ar fusnes, megis ffliw pandemig neu anghydfodau diwydiannol, yn uchel ar restr blaenoriaethau pob awdurdod ar hyn o bryd. Cynghorwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod fersiwn diwygiedig dogfen Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, byddai hon hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar reoli parhad busnes. Gofynnodd yr aelodau, gan mai hwy fyddai'n gyfrifol am weithredu'r polisi ac am sicrhau adnoddau digonol er mwyn cwrdd â'i amcanion, i gael derbyn diweddariad rheolaidd ar Reoli Parhad Busnes.

***Penderfynwyd: – cefnogi cynnwys y polisi drafft a'r atodiadau cysylltiedig a bod diweddariad rheolaidd yn cael ei gyflwyno i aelodau ar Reoli Parhad Busnes.***

**12) Materion Brys**

Dim.

**13) Dyddiad(au) cyfarfod(ydd) i ddod**

Wedi trafodaeth:

***Penderfynwyd: - bod cyfarfod nesaf y Panel Gweithredol i'w gynnal am 11am ddydd Iau, 15fed Tachwedd 2007 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy.***

**RHAN II**

Dim busnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10 y prynhawn.